# Dod o Hyd i Ddata am Ffilmiau Cymreig: 23/24



Yn dilyn ymlaen o'n hymchwil data ffilmiau Cymreig, sy'n rhedeg ers 2019, fe wnaethom gomisiynu Delphine Lievens a Toki Allison i edrych yn fanwl ar 15 o ffilmiau a ryddhawyd rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024. Y nod oedd dadansoddi sut berfformiodd y ffilmiau mewn sinemâu, a sut wnaeth ein cefnogaeth gyfrannu at eu rhyddhad. Roedd 23/24 yn flwyddyn anarferol, gyda sawl ffilm yn cael ei oedi yn sgil y streiciau, gan gynnwys ffilmiau allweddol a dderbyniodd gefnogaeth gan raglen Gwnaethpwyd yng Nghymru.

FILM HUB WALES
CANOLFAN FFILM CYMRU

Delwedd: The Creator © 20th Century Studios

# Ein Methodoleg

**15***
**ffilm nodwedd**
(o 15 ffilm hysbys)

**Dyddiadau rhyddhau Ebrill 23 – Mawrth 24**

*
**Ystod o gyllidebau** a strategaethau rhyddhau

Arolwg dosbarthwr / cynhyrchydd / ariannwr a phersonél

Data
**Comscore**

Ymchwil
**Desg**

## Mae Ffilmiau a Wnaethpwyd yng Nghymru yn cynnwys:

- Talent o Gymru (cyfarwyddwr, cynhyrchydd, ysgrifennwr a phrif gast).
- Wedi'i chreu gan gwmnïau cynhyrchu neu wneuthurwyr ffilmiau sy'n weithredol yng Nghymru.
- Ffilmiau a leolir yng Nghymru neu sy'n ymdrin â straeon Cymreig.
- Ffilmiau yn y Gymraeg.



Delwedd: The Magic Flute © Sola Media

# Ffilmiau


















Delweddau o'r chwith uchaf:
***A Million Days*** (© Signature Entertainment), ***A Year in a Field*** (© Anti-Worlds Releasing), ***And Then Come the Nightjars*** (© Munro Film Services), ***Bolan's Shoes*** (© *Buffalo Dragon Films*), ***Daliland*** (© Bankside Films, ***LOLA*** (© Signature Entertainment ), ***My Happy Ending*** (© Republic Film Distribution), ***Older Gods*** (© Wagyu Films), ***Our Sons*** (© Vertical Entertainment), ***The Canterville Ghost*** (© Signature Entertainment), ***The Creator*** (© 20th Century Studios), ***The Eternal Daughter*** (© A24), ***The Magic Flute*** (© Sola Media) ***The Martin Decker Show*** (© *Kevin Jones*) ***Twin Town*** (© fFatti fFilms / Music Film Network)


# Ein Darganfyddiadau

## Dosbarthu




**60%**

10/15 o ffilmiau wedi'u dosbarthu i sinemâu yn y DU ac Iwerddon




**13%**

2/15 wedi'u rhyddhau yn rhyngwladol yn unig, mewn tiriogaethau nad ydynt yn y DU




**20%**

3/15 o ffilmiau wedi'u hunan-ddosbarthu




**20%**

3/15 wedi'u rhyddhau ar sail Fideo ar Alw yn unig



**66%**

10/15 wedi'u rhyddhau'n gyfyngedig (llai na 100 safle)



**47%**

wedi cynnig dangosiad ymlaen llaw i arddangoswyr

## Ffaith Ffilm:

1015 o ffilmiau a ryddhawyd yn 2023, sy'n gynnydd bach ar 929 o ffilmiau a ryddhawyd yn ystod 2022 a mwy na dwbl y 504 a ryddhawyd yn dilyn y pandemig yn 2021. Mae sinemâu wedi dangos adferiad araf gyda mynediadau yn y DU yn 123.6m yn 2023, 117.3m yn 2022 (mynediadau ( mynediadau blynyddol UKCA). Fodd bynnag, mae'r rhain yn cyd-fynd â ffigurau o tua chanol y 1990au ac nid y brig o 176.1m yn 2019. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â rhediadau byrrach neu ddim rhediadau mewn sinemâu, ansawdd y cynnwys, cytundebau ffrydio a dirlawnder posibl y farchnad ar gyfer dosbarthwyr ac arddangoswyr.

# Perfformiad

1 ffilm wedi gwneud dros **£1m** yn y swyddfa docynnau (£7m)

Dwy ffilm wedi grosio dros **£100k** (£610k a £102k)


**£7.9m** o werthiant tocynnau ar draws y DU ac Iwerddon

**1,008,214** o fynediadau yn y DU ac Iwerddon (lle roedd data ar gael)

**£216k** (3.27%) o werthiant tocynnau yng Nghymru


**33,567** o fynediadau mewn safleoedd yng Nghymru

Cyfran marchnad Cymru oedd **3.27%** (3.11% yn 2022 a 3.16% yn 2023)



Cyflwynodd **60%** o'r dosbarthwyr ddata i Comscore - nid yw hyn yn cynnwys data o du hwnt i sinemâu, sy'n golygu y gallai mynediadau fod yn uwch.

Cafodd **1** ffilm ddangosiadau digwyddiad arbennig (h.y. premieres, sesiynau holi ac ateb, dangosiadau i'r cast a'r criw) yng Nghymru *(Twin Town).*




Cafodd **11/15** ffilm sylw yn y wasg neu'r cyfryngau a gyfeiriodd at y cysylltiad â Chymru.

## Ffaith Ffilm:


£7.9 miliwn wedi'i grosio ar draws 15 ffilm, sy'n fwy na thri gwaith gros yr adroddiad 2022-2023 o £2.5 miliwn a'r gros 2021-2022 o £1.1miliwn. Er mai dim ond 2.9% o gyfanswm y gwerthiant tocynnau yng Nghymru a gyflawnodd teitlau mwy fel The Creator, roedd hynny'n cyfrif am 80% o gyfanswm incwm Cymru yn y sampl hon. Heb The Creator na Twin Town, mae cyfran o'r farchnad yng Nghymru yn cynyddu i 5.9% yn y sampl. Dangoswyd Twin Town yng Nghymru yn unig, gan gyrraedd 100% o'r gyfran o werthiant tocynnau a pherfformio'n well na theitlau masnachol eraill gyda nifer debyg o safleoedd.

## Derbyniad Rhyngwladol



**53%**

Cafodd 8/15 o'r ffilmiau eu rhyddhau mewn sinemâu y tu allan i'r DU ac Iwerddon, sydd yn ostyngiad sylweddol o ffigwr o 92% yn 22/23.




Cafodd y ffilmiau mwyaf yn y DU y cyrhaeddiad rhyngwladol ehangaf hefyd.




**100%**

Sicrhaodd pob ffilm o leiaf un ŵyl.



**6%**

Dangoswyd 6% o'r ffilmiau am y tro cyntaf yng Ngŵyl Ffilmiau Llundain yn 23/24 (i lawr o 30% yn 22/23)



**3 Films**

Cafodd 3 ffilm ei dangos mewn gwyliau ffilm rhyngwladol o bwys (*The Eternal Daughter, The Creator, Daliland)*

## Ffaith Ffilm:

O'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, roedd gostyngiad mewn cynrychiolaeth mewn gwyliau. Roedd *The Eternal Daughter* yn eithriad nodedig, gan i'r ffilm gael ei dangos yng Ngŵyl Ffilm Ryngwladol Toronto (TIFF), Fenis, a Gŵyl Ffilm Llundain BFI (LFF), yn ogystal ag enwebiadau amrywiol. Fe gafodd *The Creator* gydnabyddiaeth sylweddol, gan ennill 13 gwobr mewn gwyliau llai o faint a derbyn 48 enwebiad yn gyffredinol, gan gynnwys dau enwebiad Oscar ac un enwebiad BAFTA. Dangosodd *Daliland* hefyd yn TIFF a chwe gŵyl ryngwladol arall. Ni ymddangosodd unrhyw deitlau yn SXSW (o'i gymharu ag 8% yn 2022–23) na Sundance (1 teitl yn 22/23), ymddangosodd 13% o'r teitlau yn TIFF (14% yn 2022–23), a dim ond 6% a ymddangosodd yn LFF (i lawr o 30% yn 2022–23). Dangoswyd llawer o'r teitlau sy'n weddill mewn gwyliau llai neu genre-benodol.

# Cyllid

Dim ond dwy gyllideb dosbarthu y rhannwyd - y ddwy yn **£50-60k**

Roedd **13** o ddosbarthwyr yn ystyried y wybodaeth yma'n gyfrinachol neu heb gwblhau'r holiadur, ac felly nid oedden wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad.

Fe dderbyniodd **0%** gyllid cynhyrchu gan y BFI (i lawr o 15% yn 22/23)

Fe dderbyniodd **6.6%** (1 ffilm) gyllid Cynhyrchu Ffilm Cymru Wales (i lawr o 33% yn 21)

Fe dderbyniodd **0** wobr Cymru Greadigol (i lawr o 1 ffilm yn 2020). Fe dderbyniodd pedair ffilm gefnogaeth lleoliad/criw.

Derbyniodd **0** ffilm gyllid dosbarthu BFI (i lawr o 8% yn 22/23) ond dosbarthwyd 1 ffilm yn uniongyrchol gan y BFI (The Eternal Daughter) ynghyd â 'blwch ar glo' (mae incwm sydd wedi'i adennill yn cefnogi prosiectau yn y dyfodol)

Fe dderbyniodd **0** gyllid dosbarthu FfCW.

## Sbotolau:

Nododd Prif Swyddog Gweithredol FfCW Lee Walters y gallai amrywiol ffactorau yn ystod 23/24 fod wedi effeithio ar strategaethau rhyddhau'r ffilm: "Fe effeithiodd streiciau ***(WGA / SAG-AFTRA***) *llafur Hollywood ar y cyfnodau hyrwyddo, argaeledd talent ar gyfer premieres ac ychydig o weithgareddau marchnata, a gywasgodd gyfleoedd cyhoeddusrwydd ar gyfer ffilmiau annibynnol yn ystod 2023 ac i mewn i galendr yr ŵyl.* ***Newid amgylchedd cyllido'r DU*** *wrth i bolisi a thirwedd dreth y DU esblygu yn 2023–24 (a dilynodd cyhoeddiadau pellach), gan gynnwys mesurau'r llywodraeth a thrafodaethau credyd treth newydd a newidiodd gynllunio cynhyrchwyr/dosbarthwyr. Daeth rhai o'r newidiadau treth/credyd (a'r amserlen weithredu Credyd Treth Ffilm Annibynnol diweddarach) yn berthnasol i gynyrchiadau y dechreuodd eu prif ffilmio ar ôl Ebrill 1, 2024 (sydd y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn).* ***Adferiad y sector a chryfder gwyliau*** *wrth i wyliau ac arddangosfeydd barhau i ailadeiladu momentwm y gynulleidfa ar ôl y pandemig, helpodd hyn i weledd ond hefyd cynyddu cystadleuaeth am slotiau a'r wasg."* Ychwanegodd y byddai "*grantiau bach i helpu cynhyrchwyr i ymgysylltu ag asiantau gwerthu, mynychu marchnadoedd allweddol (Cannes, Berlin, Toronto) ac ariannu cyflwyniadau gwyliau / deunyddiau hyrwyddo yn fuddiol i fynd i'r afael â'r bwlch indie clasurol rhwng cynhyrchu a thyniant y farchnad."*



Delwedd: A Year in a Field (© Anti-Worlds Releasing)

# Cefnogaeth Canolfan Ffilm Cymru


Rhestrwyd **100%** o'r ffilmiau yn y catalog ac fe hyrwyddwyd y ffilmiau drwy'r wefan a chylchlythyr.

Dangoswyd **13%** (2 ffilm) i arddangoswyr yn ystod y Dyddiau Rhagddangos Cymreig a **33%** (5 ffilm) mewn ystafell rhagddangos ar-lein.

Fe dderbyniodd **6.6%** (1 ffilm) asedau neu gefnogaeth wedi'i deilwra'n arbennig. Cafodd ffilmiau eraill sy'n derbyn cefnogaeth asedau eu hoedi gan streiciau, neu ffactorau eraill.

## Sbotolau:

Mae camsyniad cyffredin yn bodoli bod gan Gwnaethpwyd yng Nghymru y cyllid i dalu am gostau greu ffilmiau a marchnata. Y gwir yw, mae'n gweithredu gydag ond dau ddiwrnod yr wythnos o amser staff a dim gweithgarwch ehangach wedi'i cyllido. Mae CFfC yn galw yn rheolaidd am fuddsoddiad ehangach mewn marchnata a dosbarthu. Ymhlith yr argymhellion ar gyfer cefnogaeth ehangach drwy Gymru, mae cysylltu adolygwyr â ffilmiau yn fwy rheolaidd, brandio ac ymgyrchoedd marchnata mwy gweledol, rhwydweithio rhwng dosbarthwyr a chwmnïau cynhyrchu, cychwyn sgyrsiau am gyllid ac adnoddau pwrpasol ar gyfer cynulleidfaoedd penodol.



Delwedd: Daliland © Bankside Films

"Byddai unrhyw beth sy'n cynyddu gwelededd ar lefel y gynulleidfa yn fuddiol, gan fod angen i ni addysgu'r gynulleidfa am y ffilmiau sy'n dod allan y tu hwnt i'r hyn sy'n dod allan o stiwdios. Byddai hyn wedyn yn ei gwneud hi'n haws i sinemâu fentro ac archebu ffilmiau petaent yn gwybod bod awydd ymhlith y gynulleidfa."

**- Dosbarthwr**

## Sbotolau: The Eternal Daughter

I gefnogi rhyddhad y ffilm yma, fe aethom ati i greu pecyn gydag awgrymiadau rhaglennu, newyddion, adolygiadau ac asedau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i arddangoswyr, a hynny er mwyn hyrwyddo'r cysylltiadau Cymreig. Fe wnaethom hefyd greu cyflwyniad ar ffurf fideo gan yr actor o Gymru, Carly-Sophia Davies, un traean o gast y ffilm yn ei rôl gyntaf.




"Fe ddangoswyd The Eternal Daughter mewn llond llaw o sinemâu yng Nghymru. Chapter, Caerdydd oedd y 15fed sinema a berfformiodd orau yn ystod ymgyrch rhyddhau'r ffilm (safle ychydig yn uwch nag arfer i Chapter ar gyfer ffilm a ddosbarthwyd gan y BFI). Gallai ymgyrch i'r wasg leol ar gyfer Darlledu/y Wasg os yw cyllidebau yn caniatáu helpu ffilmiau sy'n cael eu rhyddhau yn y dyfodol (rydym wedi gweld llwyddiant gyda'r gweithgarwch hwn ar ffilmiau rydyn ni wedi'u dosbarthu sydd â chysylltiadau Cernyweg / cysylltiadau gyda De Orllewin Lloegr)."

**- BFI**


Delwedd: The Eternal Daughter © A24

# Cydraddoldeb a Chynhwysiant


Cafodd **120** o bobl eu cydnabod fel talent allweddol ar y 15 ffilm (cydnabyddiaeth wedi'i nodi fel Cynhyrchydd, Cyfarwyddwr, Ysgrifennwr neu brif actor).




28% rôl fenywaidd, 72% rôl wrywaidd, 0% rôl anneuaidd,(cynhyrchwyr, cyfarwyddwyr, ysgrifenwyr, prif actorion)




18% Cyfarwyddwyr benywaidd (i lawr o 31% yn 22/23, 40% yn 21/22).




24% Cynhyrchwyr benywaidd (36% yn 22/23, 38% yn 21/22).




24% Ysgrifenwyr benywaidd (i lawr o 40% yn 22/23 ond cynnydd o'r 8% yn 21/22).



45% Prif actorion benywaidd (i lawr o ffigwr blaenorol o 60%).



20% Cyfarwyddwyr Du, Asiaidd a Mwyafrif Byd-eang (i lawr o 15% yn 22/23).



8% Cynhyrchwyr a chyfarwyddwyr Du, Asiaidd a Mwyafrif Byd-eang (i lawr o 15% yn 22/23).





0% Ysgrifenwyr Du, Asiaidd a Mwyafrif Byd-eang (i lawr o 10% yn 22/23).

## Cyd-destun:

Fe gyhoeddodd USC Annenberg adroddiad yn dangos gostyngiad mewn amrywiaeth ymhlith prif rolau i fenywod yn ystod 2023: "Mae llai o ferched a menywod mewn rolau yn 2023 o'i gymharu â 2022 — fe ddisgynnodd y ffigwr i 30%, yn gyfartal i 2010 gyda gostyngiad o 14% o'r flwyddyn gynt." Yn anffodus, mae ein data yn cyd-fynd a hyn, ond fe ddylid nodi bod oedi rhyddhau ambell i ffilm efallai wedi cael effaith ar y ffigyrau hyn. Rydym hefyd yn ymwybodol bod casglu'r data yma yn broblematig, gan nad yw'n cael ei gyflwyno gan dimau/unigolion cynhyrchu sy'n gallu hunan-adnabod ac ni ellir adrodd ar anabledd, gwneuthurwyr ffilmiau LHDT+ na chroestoriadol heb fuddsoddiad ychwanegol sylweddol. Dylid nodi fod data Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gynyrchiadau Cymreig ddim yn cael ei rannu â'r cyhoedd ar hyn o bryd.

# Dadansoddiad yn ôl rôl




## Iaith

**0%** (0/15) teitl yn y Gymraeg (i lawr o 23% yn 22/23).

**0** dwyieithog (dim newid o 21/22).

**73%** (11/15) ffilm Saesneg yn unig (i fyny o 61% yn 22/23).

**25%** (4/15) teitl yn cynnwys ieithoedd rhyngwladol: Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg ac iaith Thai (i fyny o 15% yn 22/23).

Fe dderbyniodd **13%** (2/15) teitl ddeunydd marchnata Cymraeg gan y dosbarthwyr (dim newid o 22/23).

Er nad oedd unrhyw ffilmiau yn y Gymraeg. Fe gyflawnodd ail-ryddhau'r clasur Twin Town **100%** o'i werthiant tocynnau yng Nghymru, gan ddangos mor boblogaidd yw teitlau sydd yn benodol Gymreig.

Nid yw'r % o dalent o Gymru ar gyfer pob cynhyrchiad ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd.

## Sbotolau:

Cynigiodd dwy ffilm ddeunyddiau marchnata Cymraeg - *Bolan's Shoes* a *Older Gods* - gan gydnabod apêl y ffilm i gynulleidfaoedd Cymru. Gellid dadlau bod hyn wedi cael effaith ar ei chyfran resymol o safleoedd yng Nghymru, sef 8.9%. Cyfeiriodd deiliaid hawliau at ddiffyg mynediad at dalent o Gymru i gefnogi digwyddiadau a gweithgareddau cofleidiol, cyllidebau cyfyngedig a diffyg dealltwriaeth o fanteision creu adnoddau Cymraeg fel rhesymau pam nad oedd deunyddiau yn ddwyieithog. Gyda 29.2% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg a data'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn awgrymu bod 82% o bobl yn dweud eu bod yn fwy tueddol o ddewis cwmni sy'n darparu gwasanaeth Cymraeg da, mae dadl glir i archwilio hyn fel ffordd o adeiladu cysylltiadau â chynulleidfaoedd newydd.




Delwedd: Bolan's Shoes (© Buffalo Dragon Films)

# Casgliadau

**Llai o ffilmiau'n cael eu rhyddhau mewn sinemâu** yn debygol oherwydd pwysau yn dilyn y pandemig, oedi mewn cynhyrchu a dosbarthu yn sgil streic yr ysgrifenwyr, costau cynyddol y diwydiant, a newid mewn ymddygiad y gynulleidfa, yn enwedig yr argyfwng costau byw.

Roedd teitlau mawr fel *The Creator* yn dominyddu enillion yn y swyddfa docynnau ond roedd ffilmiau **a oedd yn cofleidio ac yn hyrwyddo** eu hunaniaeth a'u cysylltiadau Cymreig yn tueddu i berfformio'n well.

Roedd sylw yn y wasg yn anghyson, gyda rhai ffilmiau ddim yn tynnu sylw at eu hunaniaeth Gymreig o gwbl.

Roedd dangosiadau gyda digwyddiad arbennig yng Nghymru, e.e. dangosiadau **gyda thalent, yn gyfyngedig** fe allai hynny effeithio ar ymwybyddiaeth.

Yn gyffredinol bu llai o ymwneud â gwyliau, er i rai ffilmiau, megis *The Eternal Daughter* a *The Creator* dderbyn **cydnabyddiaeth sylweddol,** gan gynnwys gwobrau ac enwebiadau Oscar.

Roedd oddeutu **12-24%** o'r rolau creadigol yn nwylo menywod, tra bu gostyngiad yn y rhannau ar sgrin i fenywod (i lawr i **20%,** ) yn cyd-fynd â thuedd ehangach o weld llai o gynrychiolaeth ar sgrin i fenywod.

Ni ryddhawyd unrhyw ffilmiau yn y Gymraeg ac nid oedd unrhyw ffilm yn ddwyieithog, er bod **4 ffilm nodwedd yn cynnwys ieithoedd eraill** Cynigiodd dwy ffilm ddeunyddiau yn y Gymraeg.

Mae data am gynhwysiant pobl LHDTC+ a phobl anabledd yn **parhau'n brin** gan dynnu sylw at y bylchau mewn monitro a chymryd camau tuag at welliant. Cynigiwyd darpariaeth hygyrchedd gan ddim ond hanner y cwmnïau a gwblhaodd yr holiadur, a hynny'n bennaf ar gyfer ffilmiau gyda chyllideb fwy.

Mae angen parhaus **am well ymrwymiad** a buddsoddiad mewn adeiladu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig. **Byddai ymdrech gydlynol** gan gyllidwyr, dosbarthwyr, arddangoswyr, a chynhyrchwyr ffilm, gyda **dull gyd-gysylltiedig** o ran targedu, ymgysylltu, mentrau amrywiaeth ystyrlon, hygyrchedd, tynnu sylw at hunaniaeth ac iaith ffilm Gymreig, yn debygol o gael effaith fawr tuag at y gydnabyddiaeth.

Oherwydd **bylchau mewn gwasanaethau cymorth** Oherwydd mae disgwyl y dylai Gwnaethpwyd yng Nghymru gynnig mwy, ond mae llawer o'r awgrymiadau y tu allan i'w gylch gorchwyl, sy'n awgrymu bod angen mwy o gyfathrebu a gwelededd diwydiant.

**I ddarganfod mwy am sut mae CFfC yn cefnogi ffilmiau sydd â chysylltiadau Cymreig, ewch i'n gwefan: filmhubwales.org**



Delwedd: And Then Come the Nightjars (© Munro Film Services)

# Manylion cyswllt:



**Hana Lewis**
Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru
02920 353 740
hana@filmhubwales.org



**Reg Noyes**
Rheolwr Prosiect Gwnaethpwyd yng Nghymru
reg@filmhubwales.org



**Lisa Nesbitt**
Swyddog Cynorthwyo Aelodau
02920 311 067
lisa@filmhubwales.org

**@filmhubwales**

---

**@madeinwales_**

---

FILM HUB WALES CANOLFAN FFILM CYMRU

BFI FAN BFI FILM AUDIENCE NETWORK

THE NATIONAL LOTTERY

CHAPTER

Cefnogir rhaglen ehangach Gwnaethpwyd yng Nghymru gan Gymru Greadigol

Cymru Greadigol Creative Wales